Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen ar gyfer ystyried:** Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)

Gorffennaf 2025

Ar 7 Gorffennaf 2025, cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn y Senedd.

Ar 17 Mehefin 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 1 Gorffennaf 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 28 Tachwedd 2025.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Chwefror 2026, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.